**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 4ydd Mehefin, 2024, 2.00 pm**

**CYNGHORWYR YN BRESENNOL:**

Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)

Cynghorydd Sirol: Jill Bond, Fay Bromfield, Emma Bryn, Sara Burch, Jan Butler, John Crook, Tony Easson, Steven Garratt, Meirion Howells, Jayne McKenna, Maureen Powell, Sue Riley, Ann Webb

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Craig O'Connor | Pennaeth Cynllunio |
| Philip Thomas | Rheolwr Gwasanaethau Datblygu |
| Andrew Jones | Development Management Area Team Manager |
| Paige Moseley | Solicitor |
| Richard Williams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorydd Sirol Su McConnel

1. **Ethol Cadeirydd.**

Etholwyd y Cynghorydd Sir Phil Murphy yn Gadeirydd.

2. **Penodi Is-gadeirydd.**

Penodwyd y Cynghorydd Sir Dale Rooke yn Is-gadeirydd.

3. **Datganiadau o Fuddiant**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

4. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cafodd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 8 Mai 2024 eu cadarnhau a’u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Sheila Woodhouse, Cyn Gadeirydd Cyngor Sir Fynwy**

https://www.youtube.com/live/8zzQH0VSnxA?si=8xLaHAbh6l_qBKR6&t=285

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Pwyllgor Cynllunio**
**Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA**
**Dydd Mawrth, 4ydd Mehefin, 2024, 2.00 pm**

6. **Cais DM/2020/01438 – Datblygu 15 annedd (9 fforddiadwy a 6 marchnad agored) a datblygiad arall cysylltiedig a seilwaith. Tir ger Heol Tŷ Gwyn, Felinfach, NP4 0HU.**

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad ac yn amodol ar Gytundeb Adran 106.

https://www.youtube.com/live/8zzQH0VSnxA?si=OUx-jryc5pxj6TN6&t=313

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Fay Broomfield ac eiliodd y Cynghorydd Sir Meirion Howells ohirio ystyriaeth o gais DM/2020/01438 i gyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn galluogi swyddogion i ymgynghori gyda Chyngor Cymuned Llanbadog ac Aelodau lleol am y cais hwn.

Pan roddwyd y mater i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| O blaid y cynnig | - | 11 |
| Yn erbyn y cynnig | - | 4 |
| Ymatal | - | 0 |

Cafodd y cynnig ei gario.

Penderfynwyd gohirio ystyriaeth o gais DM/2020/01438 i gyfarfod yn y dyfodol o'r Pwyllgor Cynllunio i alluogi swyddogion i ymgynghori gyda Chyngor Cymuned Llanbadog ac Aelodau lleol ynghylch y cais.

7. **Cais DM/2024/00384 - Newid defnydd tir amaethyddol i hwyluso lleoli arae solar wedi'l osod ar y ddaear l'w ddefnyddio gan Woodfield House. Woodfield House, Moor Lane, Pen y Fan, The Narth.**

Ystyriwyd adroddiad y cais a gohebiaeth hwyr a argymhellwyd ar gyfer cymeradwyaeth gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

https://www.youtube.com/live/8zzQH0VSnxA?si=r6KT4e9TR3SbWIzk&t=3475

Wrth nodi manylion y cais a'r sylwadau a fynegwyd, cynigiodd y Cynghorydd Sir Maureen Powell ac eiliodd y Cynghorydd Sir Sara Burch y dylid cymeradwyo cais DM/2024/00384 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.

| | | |
|---|---|---|
| Dros gymeradwyo | - | 13 |
| Yn erbyn cymeradwyo | - | 1 |
| Ymatal | - | 1 |

Cafodd y cynnig ei gario.

Penderfynwyd cymeradwyo cais DM/2024/00384 gyda'r amodau a amlinellir yn yr adroddiad.